## Taflenni Trafod

Y nod gyda'r daflen hon yw annog trafodaeth ynglŷn â'r daflen, y cynnwys, y bwriad a'r arddull, ond hefyd annog trafodaeth am y broses o ddysgu a sut maent wedi dod i'r casgliadau.

Gellir defnyddio'r daflen mewn gwahanol ffyrdd:

- Cael pawb yn y grŵp i drafod ac yna adrodd yn ôl i'r dosbarth cyfan.
- Cael pawb yn y grŵp i drafod ac yna adrodd yn ôl i grŵp arall a chymharu atebion.
- Cael grŵp o bedwar – tri i drafod a chael un i gofnodi'r penderfyniadau pwysig. Gellid cael yr 'ysgrifennydd' i grynhoi'r penderfyniadau hynny i'r grŵp cyn penderfynu beth maent am adrodd i'r dosbarth.
- Cael hanner y grwpiau'n trafod y cwestiynau sydd ar yr ochr chwith a'r hanner arall yn trafod y rhai sydd ar yr ochr dde. Yna, ailffurfio'r grwpiau i'r naill adrodd yn ôl i'r llall.
- Carwsel - lle y newidir un aelod o'r grŵp bob cwestiwn.
- Rhoi gwahanol daflen i wahanol grwpiau, a fyddai'n fwy addas ar gyfer dosbarth gallu cymysg efallai.

## Y CWESTIYNAU

**Y nod yw cael y disgyblion, nid yn unig i gael ateb sy'n gwneud synnwyr, ond hefyd i feddwl am y broses o benderfynu ar yr ateb hwnnw, sut y daethant at yr ateb, beth a'u hysgogodd i ddewis yr ateb hwnnw ac nid un arall. Mae'r broses o anghytuno a chyfiawnhau eu hatebion a'u dull o feddwl yn bwysig i feithrin sgiliau dehongli y byddant eu hangen yn yr arholiad. Mae cwestiynu'r athro wrth drafod â grwpiau ac wrth dderbyn adborth gan grwpiau yn hollbwysig.**

**Taflen RSPCA**

**Pwy sy'n siarad yma? Pam?** - Cwestiwn sy'n gofyn am **ddehongli** yw hwn. Mae angen sylwi mai'r gath sy'n siarad – hynny oherwydd fod y cwestiwn yn y person cyntaf ('arna i'). Mae'r cwestiwn wedi'i roi wrth ymyl llun o'r gath ac mae ystum y gath yn awgrymu ei bod yn edrych ar rywun yn benodol. Mae ei phawennau hefyd yn awgrymu rhyw ymbilio. Gan mai poster gan yr RSPCA ydy o mae'n ceisio ennyn ein cydymdeimlad efo'r gath wrth iddi ofyn y cwestiwn hwn.

**Ar gyfer pa fath o bobl mae'r hysbyseb wedi'i bwriadu? Sut ydych chi'n gwybod?** - Cwestiwn **dehongli** yw hwn yn bennaf ond mae elfen o **fyfyrio a gwerthuso** yma hefyd oherwydd eu bod yn pwyso ar eu gwybodaeth o waith yr RSPCA sydd y tu hwnt i'r wybodaeth sydd ar y daflen. Y math o ateb a ddisgwylir yw bod yr hysbyseb ar gyfer pobl mewn oed sy'n poeni am yr hyn sy'n mynd i ddigwydd i'w hanifeiliaid anwes pe bai rhywbeth yn digwydd iddyn nhw fel na fyddent yn gallu gofalu amdanynt. Mae'r hysbyseb yn cychwyn drwy gyfeirio atom 'ni' - 'ein hanifeiliad anwes', 'annwyl i ni'. Ond yna mae'n pellhau drwy newid i'r trydydd person – 'os bydd eu perchnogion yn marw,' achos byddai hynny'n rhy sensitif i ddefnyddio'r person cyntaf. Mae'n defnyddio'r ail berson yn yr ail a'r trydydd paragraff – 'i'ch anifeiliaid', 'Byddwch', 'Cysylltwch' er mwyn apelio'n uniongyrchol at y darllenydd. Wrth gyfeirio at farwolaeth mae'n apelio at bobl hŷn neu bobl sy'n sâl. Mae hyn yn cael ei ategu wrth gyfeirio at yr anifail 'yn ei golled'.

**Beth yw pwrpas y frawddeg olaf?** - Cwestiwn **datblygu a dehongli** yw hwn. Mae angen iddyn nhw weld y cysylltiad rhwng y frawddeg hon a'r paragraffau cynt. Mae'r frawddeg mewn print trwm, felly mae'n amlwg ei bod yn bwysig. Mae'r tri pharagraff cynt wedi gwneud i ni deimlo'n euog a gwneud i ni feddwl beth fydd yn digwydd i'r anifeiliaid diniwed yma fydd ar goll, pan na fydd eu perchnogion yn gallu gofalu amdanynt. Efallai ein bod yn meddwl am enghreifftiau penodol ac mae'r frawddeg olaf wedi'i rhoi yno i apelio at ein heuogrwydd ni fel ein bod ni'n cyfrannu at yr elusen.

**Sut mae'r hysbyseb yn gwneud i chi deimlo? Pam?** - Mae gofyn **myfyrio** yn y cwestiwn hwn. Bydd angen iddynt feddwl am wahanol emosiynau y maent wedi eu teimlo a'u cymhwyso i'r wybodaeth sydd ar y poster hwn. Mae cymysgedd o emosiynau yma. Pan welwn y llun o'r gath i ddechrau mae'n edrych yn annwyl a diamddiffyn, ac fel petai'n erfyn am rywbeth ac felly rydym ni'n hapus ac yn teimlo cydymdeimlad tuag at y gath – 'O! bechod!' Mae'r cyfeiriad at farwolaeth yn y paragraff cyntaf yn ein sobreiddio ni a'r cyfeiriad at yr 'anifeiliaid diniwed ar goll' yn dod â theimladau o dristwch a hiraeth yn ogystal â pheth euogrwydd am nad ydym wedi meddwl am hyn o'r blaen. Yn yr ail baragraff mae ein teimladau'n newid eto, ac rydym yn teimlo'n falch bod rhywun yn gwneud rhywbeth am y peth. Yna mae'r frawddeg olaf yn apelio at ein heuogrwydd i'n hannog i gyfrannu.

**<u>Pa ansoddeiriau sy'n disgrifio'r anifeiliaid?  Pam eu bod nhw'n cael eu defnyddio?</u>** - Mae'n gwestiwn **adalw gwybodaeth**, ond mae angen gwybodaeth ramadegol yma i wybod beth yw ansoddair.  Er mwyn ateb y cwestiwn yn llawn gellir tynnu ar sgiliau **dehongli** a **myfyrio** hefyd.  Gellid trafod 'anwes'.  Gallent wneud y cysylltiad ag 'anwesu' o bosibl.  Mae anifeiliaid anwes yn cael ei ystyried fel ymadrodd am 'pet' yn Saesneg ond mae anwesu'n rhoi mwy o syniad ynglŷn â phwrpas yr anifeiliaid i'r henoed, sef rhywbeth fydd yn wrthrych eu cariad a'u sylw, sy'n ffordd o osgoi unigedd.  Mae 'annwyl' yn cyfleu'r hyn sydd yn y llun.  Mae'n awgrymu'r cariad sydd rhwng yr anifail a'i berchennog.  Mae 'diniwed' yn pwysleisio neges yr hysbyseb, sef na fyddant yn gallu gofalu amdanynt eu hunain a bod angen i rywun ysgwyddo'r cyfrifoldeb.

**<u>Pam eu bod nhw'n defnyddio 'ar goll' yma?  Beth mae'n ei gyfleu?</u>** – Cwestiwn **datblygu a dehongli** yw hwn.  Gall fod yn cael ei ddefnyddio'n llythrennol ac yn drosiadol.  Mae posibilrwydd i'r anifeiliad grwydro gan na fydd y perchennog yn galw arnynt i'r tŷ ac y byddant yn gorfod crwydro a throi'n wyllt.  Ond mae'r ystyr drosiadol o 'ar goll' yn dibynnu ar iddynt adnabod yr idiom, a gweld y byddai'r anifeiliaid yn methu deall beth sydd wedi digwydd.

**<u>Beth mae 'tawelwch meddwl' yn ei olygu?</u>** – Mae hwn eto'n gwestiwn **datblygu a dehongli.**   Mae'n gofyn am iddynt adnabod idiom eto a deall mai peidio â phoeni yw'r ystyr.  Gellir eu harwain i ddeall yr ystyr o gynnwys y paragraffau cynt – cofrestu i wneud beth?  I sicrhau dyfodol sâff.  Sâff rhag beth?  Rhag mynd ar goll.  Felly i beth ydych chi angen cofrestru?  Er mwyn peidio â phoeni am yr anifeiliaid.  Gellir eu harwain i feddwl a dadansoddi'r geiriau' tawelwch' i'r 'meddwl'.  Sut ydych chi'n teimlo os yw eich meddwl yn dawel?

**<u>Gwaith posibl i ddilyn:</u>**

- Gellir trafod pa fath o ysgrifennu yw hwn.  Gellid dadlau ei fod yn berswadiol gan mai ceisio ein perswadio i gyfrannu mae'r daflen.  Eto, mae'r elfen o berswâd yn gynnil yma.  Ceir elfennau fel y berfau gorchmynnol e.e.  'Cysylltwch' ond yn lleoliad a phrint y frawddeg olaf mae'r perswad mewn gwirionedd.
- Ysgrifennwch lythyr i ysgolion yn **<u>perswadio</u>** grŵp / grwpiau o'r ysgol i wneud gweithgaredd i godi arian at y cynllun hwn.
- Ysgrifennwch daflen yn rhoi **<u>cyfarwyddiadau</u>** i berson hŷn ar sut i ofalu am anifail anwes.
- **<u>Trafodwch</u>** a oes mudiadau pwysicach na'r RSPCA a ddylai gael ein cefnogaeth ariannol.
- **<u>Disgrifiwch</u>** anifail anwes yr ydych yn awyddus i'w werthu.
- Ysgrifennwch **<u>ymson</u>** unrhyw anifail anwes.

**Taflen Y Llewpart Eira**

**Beth ydy'r rhesymau pam y dylech chi gyfrannu at yr achos yma? Oes rhesymau yn erbyn?** - Mae'n gwestiwn **adalw gwybodaeth** ond mae elfen o **fyfyrio a gwerthuso** yma hefyd. Gellid casglu gwybodaeth o'r darn darllen, fel bod yr anifail yn brin (cyn lleied â 300 ohonynt), mae'n greadur urddasol, mae'r WWF yn defnyddio'r arian i dalu am amddiffyn y creaduriaid. Gellid codi cwestiwn ydy rhesymau fel eich bod yn cael tegan meddal a bod plant yn hoffi cael cylchgronnau a gweld beth sy'n digwydd i'r cathod yn rheswm dilys. Rhywbeth sy'n dod yn sgil y cyfraniad yw hynny; dydy o ddim yn rheswm dros gyfrannu. Gellid derbyn bod 'meithrin diddordeb parhaol mewn amddiffyn bywyd gwyllt' yn gallu bod yn rheswm os ydyn nhw'n dilyn y rhesymeg bod hynny wedyn yn codi ymwybyddiaeth mwy o bobl a hynny'n arwain at fwy o wybodaeth am y rhywogaeth. Gallant ddefnyddio eu gwybodaeth ehangach o'r tu allan i'r pwnc i resymu ymhellach. Gallai hyn olygu trafodaethau fel mai anifeiliad a grewyd gyntaf, ein bod ni wedi datblygu o anifeiliaid ac felly mae'n ddyletswydd arnom ni i'w hamddiffyn, a bod mudiad WWF yn un swyddogol ac uchel ei barch. Gallai'r rhesymau yn erbyn fod na wyddon ni ydy'r arian yn cyrraedd ei nod, gellir rhoi enghreifftiau lle nad oedd hynny'n digwydd o bosibl, gellid dadlau bod rhoi tegan meddal a phecyn gwybodaeth yn lleihau'r arian sy'n mynd i helpu'r anifeiliaid, neu fod llawer o fudiadau ac elusennau mwy teilwng a ddylai gael ein harian, fel rhai sy'n ymwneud â phobl.

**Pam eu bod yn defnyddio geiriau Polly Briggs? -** Cwestiwn **datblygu a dehongli** sydd yma. Mae'n rhaid iddynt ddeall yr ystyr sydd y tu ôl i'r geiriau. Mae'n amlwg o'r dyfyniad bod Polly Briggs, 8 oed, wrth ei bodd â'r tegan a'r cylchgronnau. Yr hyn sy'n cael ei awgrymu yma yw fod hon yn dechneg farchnata gan WWF. Mae'n awgrymu fod rhoi'r anrheg hwn i blentyn yn addysgol ac yn fodd o roi mwynhad, ac felly yn cyfiawnhau'r £3 y mis.

**Beth yw bwriad yr awdur / awduron? Pa dechnegau sy'n cael eu defnyddio i wneud hynny?** - Cwestiwn **myfyrio a gwerthuso** yw hwn. Mae angen iddynt drafod mai bwriad y darn yw perswadio'r darllenydd i gyfrannu at yr elusen. I wneud hyn mae'n apelio at gydwybod, at ein moesoldeb o'r hyn sy'n iawn i amddiffyn bywyd gwyllt ond hefyd i addysgu'r genhedlaeth nesaf am y peryglon. Gellid trafod dyfynnu, berfau gorchmynnol, apelio'n uniongyrchol at y darllenydd, ailadrodd 'RHOWCH ANRHEG ARBENNIG', 'RHOWCH ANRHEG PARHAOL'. Mae amwysedd yma oherwydd bod yr anrheg yn rhywbeth fydd gan y plentyn am byth ond hefyd mae'n diogelu parhad yr anifeiliaid yn y gwyllt. Gellid cyfeirio at y llun, y print trwm a'r logo, at y lliw a ddefnyddir, at y chwarae â geiriau yn y teitl 'ANRHEG ARRRR-BENNIG' a fyddai'n gallu ein hatgoffa o ruo'r anifail, at yr ansoddeiriau sy'n cael eu defnyddio, y cwestiwn 'Ydych chi'n fodlon mabwysiadu un o'r creaduriaid urddasol yma ar ran rhywun sy'n annwyl i chi y Nadolig hwn?'. Gallai'r rhai mwyaf treiddgar gyfeirio at y cymharu ansoddeiriau 'cyn lleied â £3 y mis' i roi'r argraff o ba mor rhad yw'r anrheg.

**Sut maen nhw'n ceisio dylanwadu arnoch chi yn y paragraff cyntaf?** - Cwestiwn sy'n gofyn am sgil **dehongli** yw hwn. Gellir pwysleisio mor unigryw yw'r cathod hyn drwy gymharu'r

ansoddair ‘mwyaf prin’ a thrwy ategu hyn â ffaith nad oes ond 300 ohonynt yn y byd. Ceir cymharu ansoddair arall ‘cyn lleied’ i bwysleisio na fydd amddiffyn creaduriaid mor arbennig yn costio llawer. Maent hefyd yn apelio at ein hawydd i blesio pobl sy’n annwyl i ni. Mae’r ffaith eu bod yn defnyddio berfau ail berson hefyd yn arwain at yr apel uniongyrchol i’r darllenydd.

**Trafodwch yr ansoddeiriau sy’n cael eu defnyddio yn y ddau baragraff yma. Ydyn nhw’n effeithiol?** - Cwestiwn **dehongli** yw hwn yn ei hanfod ond mae gofyn **adalw gwybodaeth** yma hefyd er mwyn lleoli’r ansoddeiriau. Yr ansoddeiriau y byddid yn disgwyl iddynt eu trafod yw:

‘meddal, unigryw’ i ddisgrifio’r tegan – mae ‘meddal’ yn gwneud i ni feddwl ei fod yn annwyl ac yn rywbeth sy’n rhoi cysur, ac ‘unigryw’ yn gwneud i ni fod yn ei ddeisyfu gan mor wahanol a gwerthfawr yw’r tegan.

‘hanfodol’ yn disgrifio’r anrheg. Mae’n dylanwadu arnom wrth ddewis yr anrheg Nadolig perffaith. Cawn yr argraff fod pawb sy’n caru anifeiliaid angen un o’r rhain. Mae’n awgrymu nad yw byd y sawl sy’n hoff o anifeiliaid yn gyflawn heb gael un.

‘gyson’ i ddisgrifio’r wybodaeth a ddaw i ni am yr anifeiliaid yr ydym yn eu mabwysiadu. Felly mae’n rhoi’r argraff nad anrheg fydd yn cael ei anghofio mewn dim fydd hwn.

‘parhaol’ – Argraff debyg i ‘gyson’ sydd yma. Mae’n anrheg sy’n mynd i danio diddordeb a helpu’r plentyn i ddatblygu’n oedolyn cyflawn, moesol. Nid diddordeb diwerth, dros dro fydd o chwaith. Mae gwerth parhaol iddo. Bydd y budd o gael yr anrheg yn parhau.

**Pwy arall fyddai’n defnyddio’r un tactegau â’r rhai a welwch chi yma?** - Cwestiwn sy’n gofyn am sgiliau **myfyrio a gwerthuso** yw hwn. Byddant yn manteisio ar eu gwybodaeth, eu syniadau a’u hagweddau y tu hwnt i’r testun. Bydd gofyn iddynt berthnasu’r hyn maent wedi’i drafod am y testun gyda’u gwybodaeth gyffredinol a’u profiad. Gellid disgwyl iddynt gyfeirio at elusennau a mudiadau eraill, at sut mae rhai cwmniau eraill yn hysbysebu eu cynnyrch, at sut mae prisiau’n cael eu pennu, yn aml yn cynnwys y 99 ceiniog er mwyn iddo ymddangos yn rhatach. Efallai y byddent yn trafod hysbysebion teledu a’r ffordd mae rhai cwmniau yn gorbwysleisio manteision ambell gynnyrch, fel manteision addysgol neu fanteision iechyd.

**Gwaith posibl i ddilyn:**

- Cymharwch y ddau ddarn – darn yr RSPCA a darn y Llewpart Eira. Meddyliwch am y nodweddion tebyg ac annhebyg.
- Ysgrifennwch ddarn sy’n **trafod** ydy cyfrannu i elusennau anifeiliaid yn beth da. Cofiwch fod trafodaeth yn golygu i chi gyflwyno dadleuon y ddwy ochr ac yna dod i gasgliad.

- **Adroddwch** sut y daeth Polly Briggs yn naturiaethwr enwog gan olrhain ei diddordeb cyntaf i'r anrheg hon a gafodd un Nadolig.  Cofiwch, wrth adrodd mae angen cael y wybodaeth yn y drefn gywir.
- Pa anifail ydych chi'n meddwl sydd angen ei amddiffyn?  **Esboniwch** eich dewis.

**Taflen Yswiriant Anifeiliaid**

**Pa air yn y paragraff cyntaf sy'n awgrymu y byddwch yn dioddef os na fyddwch yn cael yswiriant?** - Cwestiwn sy'n gofyn am **adalw gwybodaeth** a **dehongli**. Gallent drafod 'cwtogi' oherwydd mae hynny'n awgrymu dioddef drwy beidio â chael yr hyn y maent wedi arfer ei gael. Gallai 'hanfodol' gael ei drafod gan fod colli'r pethau hanfodol yn arwain at ddioddef. Gallai'r ferf 'taro' hefyd awgymu dioddef. Er mai mewn ystyr drosiadol y mae'n cael ei ddefnyddio yma, mae'r ferf yn awgrymu rhywbeth annisgwyl sy'n brifo.

**Sut mae'r awdur eisiau i chi deimlo?** - Cwestiwn **datblygu a dehongli** sydd yma gan fod angen i'r disgyblion ffurfio dealltwriaeth eang o fwriad yr awdur. Wrth gyflwyno dwy sefyllfa yn y parargraff cyntaf – y sefyllfa ffodus o allu talu bil milfeddyg heb feddwl ddwywaith am y peth a'r sefyllfa o wynebu bil mawr annisgwyl na ellir ei dalu, mae'r awdur eisiau i ni fel darllenwyr deimlo'n anniddig, yn ansicr, yn ddryslyd, yn amheus i ba gategori y byddem ni'n perthyn. Mae'r trydydd paragraff hefyd yn cael yr un effaith. Drwy awgrymu y gallem orfod talu miloedd o bunnoedd am weithrediadau ein hanifeiliaid anwes mae elfen o ofn, o aniddigrwydd ac amheuaeth yn codi, sy'n ein harwain i ystyried a yw yswiriant yn angenrheidiol.

**Beth yw ystyr 'cynhwysfawr'? -** Cwestiwn **dehongli** sydd yma, lle mae angen dehongli ystyr gair arbennig. Nid yw'r dasg yn gofyn am wybodaeth o eirfa yn benodol gan y gall y disgyblion ddehongli ystyr y gair drwy nifer o brosesau. Gallant ddadelfennu'r gair yn 'cynnwys' a 'mawr'. Mae'r ymadrodd 'am y sefyllfa hon . . . yn unig' yn awgrymu bod 'cynhwysfawr' yn golygu mwy na hynny. Gallai eu sgiliau **myfyrio a gwerthuso** fod yn ddefnyddiol iddynt yma hefyd gan y gallai eu gwybodaeth gyffredinol ddweud wrthynt beth yw yswiriant 'trydydd parti' ac felly galluogi iddynt ddadansoddi bod 'cynhwysfawr' yn rhoi mwy o sicrwydd na hynny.

**Ydy'r darn hwn yn ddiduedd? Rhowch resymau dros eich barn.** – Mae'r cwestiwn yn gofyn am **ddatblygu a dehongli** er mwyn adnabod prif bwrpas y testun. Rhaid datblygu ystyr ddyfnach a dehongli yr hyn maent wedi'i ddarllen ac adnabod bwriad yr awdur. Er bod yr awdur yn ymddangosiadol yn cyflwyno dwy ochr y ddadl e.e. yn y paragraff cyntaf mae'n nodi sefyllfa pan na fyddai angen yswiriant arnoch, ac yna'n nodi anfantais peidio â chael yswiriant, mae'n mynd rhagddi wedyn i nodi tair enghraifft lle y byddai yswiriant yn fanteisiol. Mae'r pwyslais ar fanteision cael yswiriant, felly nid yw'r darn yn ddiduedd, er ei fod yn awgrymu hynny ar y cychwyn.

**Sut mae'r awdur yn gwneud i chi feddwl ydych chi angen yswiriant ai peidio?** - Cwestiwn sy'n gofyn am sgiliau **datblygu a dehongli** yn bennaf, ond hefyd gellid manteisio o sgiliau **myfyrio a gwerthuso**. Gellid cyfeirio at gynnwys y darn pan fo'r awdur yn rhestru sefyllfaoedd ac achlysuron y byddai cael yswiriant yn fanteisiol fel pan fyddech yn wynebu 'bil mawr annisgwyl!' am drin i'r anifail, am drin 'cyflwr parhaus'

neu pe bai'r anifail yn 'anafu anifeiliaid eraill neu bobl, neu achosi difrod'. Mae hyn yn ein harwain i feddwl beth fyddai ein sefyllfa ariannol ni dan y fath amgylchiadau. Mae'r cynnwys, ar y dechrau, yn cyflwyno dwy ochr y sefyllfa ac yn ein cyflwyno â dau opsiwn – cynilo arian a wynebu'r bil pan ddaw, neu baratoi ar gyfer y gwaethaf. Mae'r iaith a'r arddull a ddefnyddir hefyd yn gwneud i ni feddwl, gan fod yr awdur yn defnyddio berfau ail berson lluosog i'n cyfarch yn uniongyrchol – 'allwch chi '. . . 'fe allech chi' . . . 'cofiwch' . . . 'dylech gael'. Mae hefyd yn defnyddio rhagenwau ail berson lluosog – 'eich anifail anwes . . .' 'Mae'n holl bwysig i chi . . .'

Mae'r awdur hefyd yn defnyddio cwestiynau – 'A allwch chi dalu bil milfeddyg o'ch incwm wrth gefn heb orfod cwtogi ar bethau eraill hanfodol?' . . . 'Pe bai eich anifail anwes yn cael ei frifo neu ei daro'n wael a bod arno angen llawdriniaeth fyddech chi'n ceisio dod o hyd i'r arian beth bynnag fyddai'r gost?' Mae'r pennawd hyd yn oed wedi'i osod ar ffurf cwestiwn – 'Ydych chi angen yswiriant anifeiliaid anwes?' sy'n ein hannog i feddwl a darllen y darn ymhellach er mwyn darganfod yr ateb. Mae'r ffaith fod y cwestiynau mewn gwyrdd, o bosibl, yn awgrymu ateb cadarnhaol. Mae angen annog y disgyblion i feddwl am nodweddion cynnwys ac arddull i ateb y cwestiwn hwn.

**<u>Lle y byddech chi'n disgwyl dod ar draws y math yma o destun?</u>** - Cwestiwn **myfyrio a gwerthuso**. Mae elfen o **ddehongli** yma er mwyn adnabod bwriad yr awdur ond mae angen gwybodaeth ehangach o ddeunydd darllen, ffurfiau a gwahanol gyd-destunau hefyd. Gellid dadlau y byddai'n addas ar gyfer cylchgrawn i berchnogion anifeiliaid, neu erthygl mewn papur newydd. Gellid ei gynnwys fel cyflwyniad i wefan, neu gychwyn hysbyseb cwmni yswiriant. Mae'r duedd sydd yn y darn yn ffafrio'r ail opsiwn. Byddai gofyn cwestiynu'r disgyblion fel eu bod yn gorfod cyfiawnhau eu dewis yn rhesymegol.

**<u>Pam eu bod wedi cyfeirio at le maent wedi cael y wybodaeth?</u>** - Cwestiwn **myfyrio a gwerthuso** sydd yma. Byddid yn disgwyl iddynt weld mai cyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r farn bod trin anifeiliaid anwes yn gallu bod yn ddrud mae'r awdur yma. Er mwyn rhoi hygrededd i'r swm o £650 maent yn cynnwys cyfeiriad at Gymdeithas yr Yswirwyr Prydeinig sydd wedi cyflwyno'r swm hwn, ynghŷd â phryd. Mae'n pwysleisio bod y swm yn ddibynadwy gan iddo gael ei gyflwyno gan gymdeithas swyddogol ac mae'r dyddiad yn pwysleisio ei bod yn wybodaeth gyfredol.

**<u>Yn ôl y darn yma beth yw manteision cael yswiriant? Beth yw'r anfanteision? -</u>** Cwestiwn **adalw gwybodaeth** ond mae'n fwy heriol gan nad yw'r atebion i'w cael yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r un geiriau. Dyma'r atebion y gellid eu disgwyl:

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| • Gallech gael bil anferth heb i chi baratoi ar ei gyfer.<br>• Byddai'r yswiriant yn talu am driniaeth yr anifail pe bai'n cael ei anafu. | • Mae'n costio llawer o arian yn gyson, ac efallai na fyddwch ei angen.<br>• Dydy'r polisi rhataf ddim bob amser yn ddigonol. |

| | |
|---|---|
| • Gall gostio miloedd o bunnoedd i drin anifail anwes â chyflwr parhaus a byddai'r yswiriant yn talu hyn.<br>• Pe bai rhywun yn eich siwio ni fyddai'n rhaid i chi'n bersonol dalu miloedd o bunnoedd.<br>• Gallwch gael amrywiaeth o yswiriant sy'n addas i chi.<br>• Mae yswiriant yn rhoi sicrwydd i chi. | • Rhaid talu i gael yswiriant gwerth chweil. |

**Gwaith posibl i ddilyn:**

- Ymchwiliwch i bolisi yswirio ci neu gath gan dri gwahanol gwmni yswiriant. Ysgrifennwch wybodaeth amdanynt a'u cymharu gan ystyried y gwahanol elfennau.
- Ysgrifennwch ddau ddarn y gellid eu defnyddio fel atodiadau i'r darn hwn, un yn esbonio canlyniad peidio â chael yswiriant i anifail ac un yn rhoi ochr arall y stori – am rywun oedd wedi gofalu am yswiriant.
- Ysgrifennwch lythyr / araith yn mynegi barn – 'Mae pobl yn rhoi llawer gormod o sylw ac arian i anifeiliaid anwes'.
- Ysgrifennwch sgwrs dros y ffôn rhwng gwerthwr yswiriant a chwsmer yn ceisio ei berswadio i brynu yswiriant bywyd neu yswiriant ar ffôn symudol.

**Taflen Baw Ci**

**Pam fod yr awdur yn ysgrifennu at y person hwn? Meddyliwch pa un o'r rhain sydd fwyaf addas - > i gael ei gydymdeimlad, > i anghytuno â fo, > i gael ei gytundeb, > i'w annog i weithredu. Cyfiawnhewch eich dewis.** - Cwestiwn **datblygu a dehongli** yw hwn er mwyn dehongli pwrpas y llythyr yn gyffredinol. Mae'r cwestiwn hefyd yn eu harwain i ystyried y broses o ateb cwestiwn amlddewis. Mae brawddeg gyntaf y llythyr yn dweud mai 'Gofyn am gymorth ydw i', ond nid yw hwn yn opsiwn yn y cynigion aml ddewis ac nid yw'r un ohonynt yn gyfystyron chwaith, felly mae'r dasg yn gofyn am fwy nag adalw gwybodaeth. Mae'r awdur yn flin oherwydd perchnogion cŵn diegwyddor. Yn y llythyr mae'n amlinellu'r broblem, maint y broblem yn genedlaethol, y peryglon a'r ffaith nad yw'r cosbau posibl yn cael eu defnyddio. Prif fyrdwn y llythyr, fodd bynnag, yw'r ffaith ei bod hi'n hen bryd i'r cyngor weithredu'r bygythiadau yn erbyn y perchnogion.

Dylid annog y disgyblion i ystyried pob dewis yn ei dro a chyfiawnhau ei gadw neu ei wrthod. Er bod awdur y llythyr yn gobeithio cael cydymdeimlad y cynghorydd, dydy Mrs Williams ddim yn cynnwys hanes truenus nac yn pwysleisio unrhyw ddioddefaint personol. Nid yw'n anghytuno â'r cynghorydd, achos wyddom ni ddim beth yw ei farn ef. Er ei bod yn ceisio cael ei gytundeb, nid dyna brif fyrdwn ei neges ar y diwedd, ei annog i weithredu mae hi drwy ymadroddion fel 'mae'n hen bryd i'r cyngor weithredu'r bygythiadau ' . . . 'Mae'n bryd i ni gael gwerth o'n treth cyngor'. Felly y trydydd dewis sydd fwyaf addas.

**Pa eiriau eraill allai'r awdur fod wedi'u dewis yn lle'r rhain?** Cwestiwn **dehongli** sydd yma. Mae'n rhaid i'r disgyblion drafod ystyr 'diegwyddor' a 'diofal'. Er mwyn gwneud hyn gellid dadelfennu'r geiriau - di (negydd) + egwyddor, a gallent, o bosibl, wybod ystyr egwyddor neu egwyddorol. Felly hefyd gyda di (negydd) a ofal - gofalu am rywun neu rywbeth a gofalus. Gellir cael cadarnhâd pellach o'r testun wrth ddeall mai perchnogion 'diegwyddor a diofal' a fyddai'n gadael baw eu cŵn yn y parc gan beryglu iechyd eraill. Mae'n bosibl, wedyn, y ceid cynigion fel 'nad ydyn nhw'n poeni am neb', 'hunanol', 'heb syniad o beth sy'n iawn', 'difeind', a 'blêr'. Dylid eu hannog i gyfiawnhau'r dewis a'u hegluro. Y broses sydd bwysicaf yma yn hytrach na'r ateb ei hun.

**Pa fath o ysgrifennu sydd yma? Sut ydych chi'n gwybod?** - Cwestiwn **myfyrio a gwerthuso** sydd yma. Disgwylid i'r disgyblion adnabod ffurf y llythyr ac mai llythyr ffurfiol ydyw, heb hyd yn oed weld y ddau gyfeiriad. Disgwylid iddynt adnabod ffurf y trydydd person lluosol – 'chi' , fel arwydd o ffurfioldeb, ynghŷd â 'yn gywir' wrth gloi'r llythyr. Wrth ystyried pa fath o ysgrifennu ydy o, gellid eu hannog i ystyried gofynion gwahanol fathau o ysgrifennu (gan ddefnyddio'r posteri o bosibl). Gellir eu harwain i weld barn yma er nad yw'r eirfa'n amlwg – 'dylwn fod yn gallu mwynhau'r cyfleusterau prin sy'n cael eu darparu gan y cyngor' . . . 'Dydy hi ddim yn deg iddynt gael eu peryglu fel hyn' . . . 'Mae'n bryd i ni gael gwerth o'n treth cyngor.' Gellir gweld rhesymau am y farn hon e.e. 'Mae ysgarthion cŵn yn cario heintiau fel tocsacoriasis sy'n gallu achosi i bobl golli eu golwg.' Gwelir tystiolaeth – 'Mae mwy na 500,000 o gŵn yng Nghymru, ac maent yn cynhyrchu mwy na 80

tunnell o ysgarthion' . . . 'Gellir dirwyo perchnogion cŵn hyd at £1,000 am adael carthion eu cŵn ar y llawr.' Gellir gweld gwrth ddadleuon – 'Does gen i ddim gwrthwynebiad i berchnogion fynd â'u cŵn am dro yma ond . . . ' a 'Gellir dirwyo perchnogion cŵn hyd at £1,000 am adael carthion eu cŵn ar y llawr. Wn i ddim am neb sydd wedi cael ei gosbi erioed.' Gan na chyflwynir y ddwy ochr yn llawn, ysgrifennu perswadiol sydd yma.

**Sut mae'r awdur yn teimlo? Beth yn y darn sy'n awgrymu hynny i chi?** - Cwestiwn datblygu a dehongli er mwyn deall teimladau'r awdur. Mae'r awdur yn cloi ei llythyr 'Yn gywir ond yn flin' a dylid deall mai confensiwn sy'n gyfrifol am 'yn gywir' ac mai ei gwir deimlad yw 'yn flin'. Gellir gweld enghreifftiau drwy'r llythyr o'i theimladau negyddol – 'Siom o'r mwyaf' . . . 'Dydy hi ddim yn deg '. Mae'r atalnodi hefyd yn awgrymu ei thymer – 'Wn i ddim am neb sydd wedi cael ei gosbi erioed!' a 'Mae'n bryd i ni gael gwerth o'n treth cyngor!'

**Pa mor effeithiol yw'r nodweddion arddull mae'r awdur wedi'u defnyddio yma?** - Cwestiwn **myfyrio a gwerthuso** sydd yma. Gellid tynnu sylw at ansoddeiriau e.e. cyfleusterau prin, perchnogion cŵn diegwyddor a diofal, salwch difrifol, at restru e.e. 'swyddfeydd, siopau a thai'. Gellid sôn am ffigyrau e.e. 500,000 o gŵn, 80 tunnell o ysgarthion, at eirfa feddygol – 'tocsacoriasis'. Gwelir ailadrodd ffurf brawddeg yma – 'Os yw'r baw yn cael ei adael . . . Os yw'n cael ei roi yn y geg . . .' a 'Mae'n hen bryd i'r cyngor . . . Mae'n bryd i ni . . .' Dylid cwestiynu'r disgyblion er mwyn cael trafodaeth ar effeithiolrwydd y nodweddion.

**Gwaith posibl i ddilyn:**

- Ysgrifennwch ateb y cynghorydd i Mrs Williams yn esbonio ymateb y cyngor.
- Ysgrifennwch adroddiad y cyngor ar ôl cynnal arolwg o'r broblem baw cŵn yn y dref. Gallwch gynnwys argymhellion hefyd.
- Ysgrifennwch gyfarwyddiadau i'r sawl sy'n mynd i wneud yr arolwg o faw cŵn i'r cyngor.
- Trafodaeth ar lafar i'r hyn sydd angen ei wella yn eu hardal nhw.